**WHC(2023)033**

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

**Dyddiad Cyhoeddi:  1 Medi 2023**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**STATWS:  CYDYMFFURFIO / GWEITHREDU**

**CATEGORI: IECHYD Y CYHOEDD**

**Teitl:** Cynhyrchion Brechlyn i'w defnyddio yn rhaglen frechu COVID-19 hydref 2023

**Dyddiad Dod i Ben / Adolygu:** Amherthnasol

**I'w weithredu gan:**
Prif Weithredwyr, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd
Arweinwyr Imiwneiddio, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd
Cydgysylltwyr Imiwneiddio, Byrddau Iechyd
Arweinwyr Gweithredol Brechu, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Meddygol, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd
Prif Fferyllwyr, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Mamolaeth, Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd
Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cyfarwyddwr Nyrsio, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Pennaeth y Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cyfarwyddwr Cynllunio, Rhaglen Frechu Cymru
Ymarferwyr cyffredinol
Fferyllwyr cymunedol
Iechyd a Gofal Digidol Cymru

**Er gwybodaeth i:**
Fforwm Partneriaeth GIG Cymru
Cyngor Ymarferwyr Cyffredinol, Cymru
Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol
Y Coleg Nyrsio Brenhinol

Coleg Brenhinol y Bydwragedd
Cymdeithas Ddeintyddol Prydain
Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol
Fferylliaeth Gymunedol Cymru
Arolygiaeth Gofal Cymru
Prif Weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i'w anfon ymlaen at:
Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, Awdurdodau Lleol
Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd, Awdurdodau Lleol
Cyfarwyddwyr Addysg, Awdurdodau Lleol
Gofal Cymdeithasol Cymru
Addysg a Gwella Iechyd Cymru

**Anfonwr:** Yr Athro Chris Jones CBE, Cyfarwyddwr Clinigol Cenedlaethol, GIG Cymru a'r Dirprwy Brif Swyddog Meddygol

**Enw(au) Cyswllt yng Ngrŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:**

Yr Is-adran Frechu, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ
E-bost: llc.timyrhaglenfrechu@llyw.cymru

**Dogfen(nau) amgaeedig:** Dim.

Annwyl gydweithwyr

Yn dilyn WHC (2023) 029, rwy'n ysgrifennu i gadarnhau'r cynhyrchion brechlyn COVID-19 sydd i'w defnyddio yng Nghymru y gaeaf hwn. Rwyf hefyd yn rhoi cyfarwyddiadau diwygiedig ichi ynglŷn ag ym mha drefn y dylid cynnig brechiadau i grwpiau cymwys mewn ymateb i ymddangosiad amrywiolyn newydd o COVID-19.

Bydd cydweithwyr yn ymwybodol o amrywiolyn newydd (BA.2.86) sydd wedi'i nodi'n ddiweddar. Er bod llawer iawn o ansicrwydd ynghylch yr amrywiolyn newydd hwn ar hyn o bryd, ceir cytundeb clinigol ledled gwledydd y DU bod angen ystyried mesurau rhagofalus. Wrth gwrs, mae ein rhaglen frechu COVID-19 yn elfen hollbwysig o hyn.

**O ganlyniad, pan fydd Rhaglen Frechu'r Gaeaf yn erbyn Feirysau Anadlol yn dechrau ar 11 Medi 2023, dylid blaenoriaethu'r dinasyddion mwyaf agored i niwed ar gyfer brechu, gan ddefnyddio brechlynnau sydd ar gael ar hyn o bryd.** Dylid cynnig brechiad i breswylwyr cartrefi gofal ar gyfer oedolion hŷn o ddechrau'r rhaglen, ynghyd â'r grwpiau mwyaf agored i niwed cyn gynted â phosibl. Mae hyn yn cyd-fynd â chyngor y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu y dylid rhoi blaenoriaeth i brydlondeb dros y dewis o frechlyn.

Rwy'n sylweddoli y bydd y cyfarwyddyd hwn mor agos at ddechrau'r rhaglen, pan fo gwahoddiadau i frechiadau ar fin cael eu hanfon, yn amharu ar bethau. Serch hynny, tra mae'r cyfle'n dal i fod ar gael inni gymryd camau rhagofalus mewn ymateb i ymddangosiad amrywiolyn newydd sy'n destun pryder, byddai'n esgeulus peidio â gweithredu, gan gydnabod ein blaenoriaeth yr ydym wedi'i datgan yn gyson sef diogelu'r rhai mwyaf agored i niwed. Ar sail y dystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael inni ar BA.2.86, mae'n bosibl y byddwn ni mewn ton coronafeirws mewn 4-6 wythnos. Erbyn hynny, byddai'n rhy hwyr i weithredu i atal pwysau mwy fyth ar ein GIG a'n gwasanaethau gofal.

Diolch o galon ichi ymlaen llaw am y camau y byddwch yn eu cymryd mewn ymateb i'r cyfarwyddyd hwn.

## Cynhyrchion Brechlyn

Ar ôl ystyried cyngor diweddaraf y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu ynglŷn â'r materion hyn, dyma'r cynhyrchion brechlyn y gellir eu defnyddio yng Nghymru:

Ar gyfer pob grŵp oedolyn:

- Brechlyn deufalent Gwreiddiol/Omicron BA.4-5 Pfizer-BioNTech mRNA (Comirnaty). Dos: 30 microgram (wedi'i drwyddedu)
- Brechlyn deufalent Gwreiddiol/Omicron BA.4-5 Moderna mRNA (Spikevax). Dos: 50 microgram (wedi'i drwyddedu)

- Brechlynnau unfalent XBB Pfizer-BioNTech a Moderna mRNA (heb eu trwyddedu eto)

Ar gyfer pobl ifanc 12 i 17 mlwydd oed

- Brechlyn deufalent Gwreiddiol/Omicron BA.4-5 Pfizer-BioNTech mRNA (Comirnaty). Dos: 30 microgram (wedi'i drwyddedu)
- Brechlyn unfalent XBB Pfizer-BioNTech mRNA (heb ei drwyddedu eto)

Ar gyfer plant 5 i 11 mlwydd oed:

- Fformiwleiddiad pediatrig brechlyn unfalent XBB Pfizer-BioNTech mRNA (heb ei drwyddedu eto)

Ar gyfer plant 6 mis i 4 blwydd oed:

- Fformiwleiddiad babanod brechlyn unfalent XBB Pfizer-BioNTech mRNA (heb ei drwyddedu eto)

Pan nad ystyrir bod brechlynnau mRNA COVID-19 yn glinigol addas, mae brechlyn atgyfnerthu amrywiolyn unfalent ag adjiwfant AS03 Sanofi / GSK (VidPrevtyn Beta) yn ddewis arall addas ar gyfer oedolion 18 mlwydd oed a hŷn.

Mae'r cyngor llawn gan y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu ar gael yma.

## Cyflenwad

Dylai brechlynnau sydd ar gael ar hyn o bryd ac sydd eisoes wedi'u trwyddedu gael eu rhoi pan fydd Rhaglen Frechu'r Gaeaf yn erbyn Feirysau Anadlol yn dechrau ar 11 Medi 2023. Yn amodol ar eu trwyddedu, bydd brechlynnau unfalent XBB mRNA ar gael i Gymru tua diwedd mis Medi/dechrau mis Hydref.

Bydd brechlynnau'n cael eu harchebu drwy Raglen Frechu Cymru, gan fabwysiadu'r canllawiau gweithredu sydd wedi'u diweddaru ar gyflenwi a dosbarthu brechlynnau COVID-19.

## Cyfnod arsylwi brechlynnau COVID-19

O fis Medi 2023 ymlaen, mae'r cyfnodau arsylwi a argymhellir yng Nghymru yn cyd-fynd â chyngor y Llyfr Gwyrdd ar gyfer pob oedolyn a phlentyn.

## Cyllid

Anfonwyd gwybodaeth yn flaenorol am ddyraniadau cyllid ar gyfer rhaglen frechu COVID-19. Rwy'n deall y sefyllfa ariannol heriol sy'n wynebu sefydliadau; mae'n gyfnod anodd iawn i sector cyhoeddus Cymru a does dim arwydd y bydd y pwysau'n lleihau'n fuan. Rwy'n ymwybodol y gallai ymateb i'r

amrywiolyn newydd gael effaith ar gynlluniau arbedion sefydliadau. Byddwn yn trafod hyn â sefydliadau wrth i'r sefyllfa ddatblygu.

Hoffwn ymddiheuro am yr oedi cyn rhannu'r wybodaeth hanfodol hon â'r system. Gallaf eich sicrhau bod pob ymdrech wedi'i gwneud i rannu'r wybodaeth hon cyn gynted â phosibl ar ôl i gyngor y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu gael ei gyhoeddi.

Unwaith eto, hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi gweithio mor galed i baratoi ar gyfer Rhaglen Frechu'r Gaeaf yn erbyn Feirysau Anadlol, rhaglen a fydd yn hanfodol wrth inni ddiogelu ein dinasyddion, ein cymunedau a'n gwasanaethau iechyd a gofal y gaeaf hwn.

Yn gywir

**YR ATHRO/PROFESSOR CHRIS JONES CBE**
**DIRPRWY BRIF SWYDDOG MEDDYGOL / DEPUTY CHIEF MEDICAL OFFICER**